| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **DYDDIAD** | **25 Mai 2023** |
| **TEITL** | **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru) 2021** |
| **Amcan** | **Diweddaru y Pwyllgor ar y cynnydd yn y rhaglen waith.** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

**1. Rhagarweiniad**

Rwyf wedi adrodd ar y rhaglen waith gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiad( Cymru) 2021 wrth i'r Deddf ddod yn weithredol. Roedd nifer o gamau gweithredu yn deillio o ddarpariaethau'r Ddeddf. Yn dilyn Cydsyniad Brenhinol daeth y darpariaethau i rym drwodd i 2022. Bellach gyda rhai eithriadau mae'r darpariaethau mewn grym. Mae'r prif ddogfennau Arweiniad Statudol bellach wedi eu cyhoeddi .

**2. Y Ddeddf**

Mae naw prif ran i'r Ddeddf sydd yn berthnasol i Brif Gynghorau Cynghorau Tref a Chymuned ac Awdurdodau eraill. Mae'n cynrychioli y Deddf Llywodraeth Leol fwyaf sylweddol ers bosib Deddf Llywodraeth Leol 2000 ddaeth ar drefn Cabinet a'r Fframwaith Foesegol i fodolaeth. Mae 9 rhan i'r Deddf ac mae'r Rhaglen Waith wedi dilyn y rhain fel fframwaith.

RHAN 1 - ETHOLIADAU
RHAN 2 – PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL I AWDURDODAU LLEOL
RHAN 3 - HYBU MYNEDIAD AT LYWODRAETH LEOL
RHAN 4 – GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL
RHAN 5 – CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU
RHAN 6 – PERFFORMIAD A LLYWODRAETHU PRIF GYNGHORAU
RHAN 7 – UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD
RHAN 8 – CYLLID LLYWODRAETH LEOL
RHAN 9 – AMRYWIOL

Gellir darllen crynodeb o gynnwys y Ddeddf yn yr adroddiad i'r Cyngor ar y 4ydd o Fawrth 2021

Eitem 13 - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021.pdf

**3. Rhaglen Waith**

Mae'r Deddf eisoes wedi ei gosod o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol oherwydd ei arwyddocâd. Mae'r Rhaglen Waith ( Atodiad 1) yn ymwneud ag ystod o dasgau sydd yn bennaf ynglŷn a'r Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae Tim Prosiect wedi bod yn arwain ar y rhaglen yma ac yn cyd baratoi dogfennau a chytuno ar gamau a chyfathrebu negeseuon allweddol.

Erbyn hyn mae prif elfennau y Deddf wedi eu mabwysiadu ac yn weithredol. Mae'r Strategaeth Cyfranogiad a Cynllun Deisebau wedi eu mabwysiadu ac yn cael eu gosod ar wefan y Cyngor . Mae'r gwaith ar baratoi Canllawiau I'r Cyfansoddiad drafft yn cael ei gwblhau. Bydd angen cynnal proses ymgynghorol cyn y gellir eu cwblhau a chyhoeddi. Mae hyn wedi ei esbonio yn y rhaglen waith. Fe

nodwyd yn flaenorol hefyd fod y Deddf yn darparu dewis trefn bleidleisio ar gyfer etholiadau Prif Gynghorau . Darparwyd papur briffio gennyf ar gyfer Arweinyddion Grwpiau ac mae bwriad cynnal sesiwn briffio i aelodau ar y nifer faterion sydd yn datblygu ar draws maes etholiadau a phleidleisio gan gynnwys yr agwedd dyma.  Bwriedir wedyn adrodd ar y dewis sustem bleidleisio i'r Cyngor Llawn yn ystod y Hydref er gwyntyllu y dewisiadau a cheisio arweiniad ar ddymuniad i gychwyn proses ystyried mabwysiadau trefn amgen .

Y rhan olaf o’r gwaith fydd cwblhau gwaith addasu y Cyfansoddiad. Mae'r diweddariadau angenrheidiol wedi eu mabwysiadau a chyhoeddi eisoes. Y bwriad yw gweithio drwy 2il gymal o’r gwaith yma drwy wneud addasiadau sydd yn dod ‘ar cynnwys yn gyfredol megis materion o amgylch y Cyd Bwyllgor Corfforaethol. Rwyf hefyd yn cymryd mantais o’r cyfle i ddiweddaru y Cyfansoddiad yn gyffredinol i adlewyrchu ar newidiadau yn Cyngor a gwaith y Cyngor.  Rhagwelaf y bydd y gwaith yma yn cwblhau yn derfynol yng Nghyngor  yr Hydref ac byddaf yn adrodd I'r Pwyllgor yma am arweiniad ar elfennau penodol.

**Penderfyniad a Geisir**

**Derbyn yr adroddiad a’r cynnydd.**